# Adran Gofal Cymdeithasol a Thai

# Symud i Gartref Gofal
# Canllawiau Asesu Ariannol a Thaliadau 2025/2026

## Ffeithlen 2

**(Tachwedd 2025)**

## Rhagarweiniad

Ar 6 Ebrill 2016, cyflwynwyd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae rhan o'r Ddeddf yn ceisio cael mwy o gysondeb o ran codi tâl a lleihau'r amrywiadau eang mewn trefniadau codi tâl a'r symiau sy'n cael eu codi gan wahanol Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae disgresiwn gan Awdurdodau Lleol i benderfynu a fyddant yn codi tâl am wasanaethau neu beidio, ac i benderfynu pa wasanaethau y codir tâl amdanynt a faint o dâl a godir am bob gwasanaeth.

## Faint fydd yn ei gostio?

Mae'r Cyngor o bryd i'w gilydd yn adolygu'r gwasanaethau y mae'n codi tâl amdanynt ac mae'n adolygu'r tâl a godir am bob gwasanaeth o leiaf unwaith y flwyddyn.

Bydd y costau'n dibynnu ar eich anghenion gofal asesedig a'r math o arhosiad neu leoliad. Y canlynol yw'r gwahanol fathau o arosiadau neu leoliadau:

- **Gofal Tymor Byr/Seibiant -** Ystyr gofal tymor byr/seibiant yw arhosiad byr wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio mewn cartref gofal nad yw'n debygol o bara am fwy nag 8 wythnos adeg eich derbyn. Pennir lefel a hyd y gofal a chymorth i'w darparu ar sail eich asesiad o anghenion a gallwch gael eich derbyn am unrhyw reswm, e.e. i roi seibiant i'ch gofalwr/gofalwyr. Codir tâl am ofal tymor byr/seibiant dan y rheolau ynghylch codi tâl am wasanaethau dibreswyl am y cyfnod sydd ei angen yn sgil eich asesiad o anghenion a hyd at 8 wythnos (gweler Ffeithlen 1 - Gwasanaethau Cymdeithasol Dibreswyl - Canllawiau Asesu Ariannol a Thaliadau) ac, os bydd yn para am fwy nag 8 wythnos, neu fod penderfyniad yn cael ei wneud cyn diwedd y cyfnod o 8 wythnos bod angen arhosiad dros dro/parhaol bydd y rheolau ynghylch codi

tâl am arosiadau dros dro/parhaol (pa un bynnag fydd yn berthnasol) mewn cartref gofal yn weithredol o'r adeg hon (gweler isod).

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i gynnig un cartref gofal addas yn unig, sydd ar gael a fydd yn darparu'r lleoliad am gyfradd arferol yr Awdurdod Lleol i ddiwallu'ch anghenion ar gyfer lleoliad seibiant/cyfnod byr. Os na fyddwch yn derbyn y lleoliad a gynigir, yna gallwch gymryd Taliad Uniongyrchol i ddiwallu'ch anghenion neu drefnu'ch lleoliad eich hun heb gymorth yr Awdurdod Lleol. Gall yr Awdurdod Lleol gynnig mwy nag un lleoliad o'r fath os oes mwy nag un ar gael, ond nid yw'n orfodaeth ganddo wneud hynny.

- **Arhosiad dros dro** - Cyfnod gofal lle rhagwelir y byddwch yn gallu dychwelyd i'ch cartref eich hunan rywbryd yn y dyfodol yw arhosiad dros dro. Mae eich arhosiad dros dro yn debygol o bara am fwy nag 8 wythnos, ond gall fod yn llai a gall bara am hyd at 52 wythnos. Bydd y taliadau yn seiliedig ar yr un rheolau â'r rheiny ar gyfer preswylwyr parhaol (gweler isod), ac eithrio'r ffaith, os ydych yn berchen ar gartref, na fydd gwerth eich prif breswylfa yn cael ei ystyried cyhyd â'ch bod yn aros dros dro, hyd at uchafswm o 52 wythnos. Os byddwch yn aros yn y lleoliad yn hirach na 52 wythnos, bydd eich prif breswylfa yn cael ei ystyried yn y broses asesu ariannol. Os ydych yn berchen ar eiddo arall neu os ydych yn berchen ar dir, byddai gwerth yr ased hwn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol o ddiwrnod cyntaf y lleoliad.

  Gallwch ddewis y cartref gofal yr hoffech gael eich lleoli ynddo, ac mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i gynnig dewis o ddau gartref gofal priodol, sydd ar gael ac a fydd yn darparu'r lleoliad am gyfradd arferol yr Awdurdod Lleol i ddiwallu eich anghenion ar gyfer lleoliad dros dro. Os na dderbyniwch unrhyw un o'r cartrefi a gynigir, ac os dewiswch gartref sy'n fwy drud, bydd Taliad Cost Ychwanegol yn ddyledus – gweler tudalennau 9 &10 o'r Ffeithlen hon am fwy o wybodaeth am Daliadau Cost Ychwanegol. Gall yr Awdurdod Lleol gynnig mwy na dau gartref o'r fath os oes mwy na dau ar gael, ond nid yw'n orfodol gwneud hynny.

- **Arhosiad parhaol** - arhosiad parhaol yw cael eich derbyn i gartref gofal lle rhagwelir y bydd angen i chi fyw yno am gyfnod amhenodol. Os byddwch, wedi hynny, yn gallu dychwelyd i'ch cartref eich hunan, yna dan amgylchiadau penodol, e.e. os ydych chi'n dychwelyd i'ch cartref eich hun i fyw yno o fewn 52 wythnos bydd y rheolau arhosiad dros dro yn cael eu hôl-weithredu.
  Gallwch ddewis y cartref gofal yr hoffech gael eich lleoli ynddo, ac mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i gynnig dewis o ddau gartref gofal priodol, sydd ar gael ac a fydd yn darparu'r lleoliad am gyfradd arferol yr

Awdurdod Lleol i ddiwallu eich anghenion ar gyfer lleoliad parhaol. Os na dderbyniwch unrhyw un o’r cartrefi a gynigir, ac os dewiswch gartref sy’n fwy drud, bydd Taliad Cost Ychwanegol yn ddyledus – gweler tudalennau 9 &10 o’r Ffeithlen hon am fwy o wybodaeth am Daliadau Cost Ychwanegol. Gall yr Awdurdod Lleol gynnig mwy na dau gartref o’r fath os oes mwy na dau ar gael, ond nid yw’n orfodol gwneud hynny.

## Faint fydd yn rhaid imi dalu am fy ngofal preswyl?

Nid oes un ateb syml. Bydd yn dibynnu ar y math o ofal y byddwch yn ei dderbyn yn ôl yr asesiad a chost darparu'r gwasanaeth hwn. Hefyd, bydd yn dibynnu ar eich cyfalaf (gan gynnwys eiddo neu tir) yn achos lleoliad parhaol a thros dro, os yw'n berthnasol, incwm a lwfansau/diystyriadau/treuliau, a pha un a yw'n lleoliad parhaol neu dros dro. Bydd yr union swm y byddwch yn ei dalu yn cael ei bennu yn yr asesiad ariannol (prawf modd). Ni fydd neb yn talu mwy na chost lawn y lleoliad yn y cartref gofal.

Codir tâl arnoch o ddiwrnod cyntaf y lleoliad, fodd bynnag, ni fydd yr anfoneb gyntaf am daliadau gofal yn cael ei chyhoeddi nes y byddwch yn cael datganiad yn nodi sut y cyfrifwyd y taliadau. *O ganlyniad, bydd angen ichi arbed eich budd-daliadau a'ch incwm o'r dyddiad y byddwch yn mynd i mewn i'r cartref gofal, gan y bydd angen defnyddio'r rhan fwyaf o'r rhain i dalu tuag at gost y cartref gofal.*

**Dylech nodi bod y tâl yn cynyddu bob mis Ebrill gan fod incwm preswylwyr a ffioedd cartrefi gofal fel arfer yn cynyddu y pryd hynny, a gallant godi ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn hefyd**.

## Sut mae'r tâl yn cael ei weithio allan?

Gwahoddir defnyddwyr gwasanaeth i gael asesiad ariannol personol i benderfynu faint fyddant yn ei dalu am y lleoliad. Bydd defnyddwyr gwasanaeth â chyfalaf (gan gynnwys tir ac eiddo yn y rhan fwyaf o achosion) uwchlaw'r trothwy cyfalaf uchaf (gweler tudalen 18 y Ffeithlen hon) yn cael eu hasesu i dalu cost lawn y lleoliad; fodd bynnag, gofynnir i ddefnyddwyr gwasanaeth y mae eu hasedau islaw'r lefel hon dalu tâl bob amser ac, fel arfer, bydd hyn yn seiliedig ar eich holl incwm, gan dynnu bant rhai mathau o incwm a ddiystyrir a'r Isafswm Incwm (gweler tudalen 18 y Ffeithlen hon) tuag at eu costau gofal.

## Beth os nad wyf am ddatgelu fy asedau?

Gallwch ddewis peidio â datgelu eich asedau ac, yn yr achosion hynny, gofynnir ichi dalu cost lawn y lleoliad.  Bydd y gost lawn yn dibynnu ar eich anghenion gofal asesedig a'r math o arhosiad, a gall gynnwys Cost Ychwanegol y mae'n rhaid i drydydd parti dalu (gweler tudalennau 9 & 10 y Ffeithlen hon).  Byddwch yn gallu hawlio Lwfans Gweini/Lwfans Byw i'r Anabl – Cydran Ofal/Taliad Annibyniaeth Personol – Byw'n ddyddiol (ar y gyfradd uwch fel arfer) i helpu i dalu am eich gofal a'ch cefnogaeth os dewiswch beidio â datgelu eich asedau, gan ein bod yn tybio bod gennych ddigon o incwm/asedau i dalu cost lawn eich lleoliad.

Byddwn yn codi ffi un- tâl wythnosol am drefnu a chynnal eich lleoliad (gweler tudalen 18 o'r Daflen Ffeithiau hon) gyda'r cartref gofal os byddwch yn dewis peidio â datgelu eich asedau neu os oes gennych fynediad at gyfalaf hylifol (arian yn y banc ac ati) uwchlaw'r trothwy cyfalaf (gweler tudalen 18 o'r Daflen Ffeithiau hon), neu incwm wythnosol digonol i dalu cost lawn y lleoliad; mae hyn oherwydd unai eich bod chi, neu eich cynrychiolydd a'r gallu i drefnu'r lleoliad heb gyfranogiad gan y Cyngor. N.B. Nid yw hyn yn berthnasol i Gartrefi Gofal sy'n eiddo i'r Awdurd Lleol gan mai dim ond y Cyngor y gall eich lleoli yn y Cartrefi Gofal hyn.

## Cyfalaf

Mae Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi trothwy cyfalaf bob mis Ebrill ac mae'r ffigur presennol i'w weld ar dudalen 18 y Ffeithlen hon.
Os yw eich asedau (gan gynnwys cynilion, cyfrifon cyfredol, buddsoddiadau ac eiddo/tir, os yw'n berthnasol) yn fwy na'r ffigur hwn, gofynnir ichi dalu cost lawn y lleoliad hyd nes y bydd lefel eich asedau yn disgyn islaw'r ffigur hwn, a phryd hynny bydd asesiad ariannol newydd yn cael ei gwblhau a bydd tâl newydd yn cael ei gyfrifo.  Bydd y gost lawn yn dibynnu ar eich anghenion gofal asesedig a'r math o leoliad.  Efallai y bydd tâl Cost Ychwanegol tâlwyd gan drydydd parti o'u cronfeydd eu hunain yn ychwanegol i'r swm hwn, os yw'r cartref gofal a ddewiswyd gennych yn codi tâl uwch na'r hyn a gytunwyd gan yr Awdurdod Lleol (gweler tudalennau 9 & 10 y Ffeithlen hon).  Byddwch yn gallu hawlio Lwfans Gweini/Lwfans Byw i'r Anabl – Cydran Ofal/Taliad Annibyniaeth Personol – Byw'n ddyddiol (ar y gyfradd uwch fel arfer) i helpu i dalu am eich gofal a chefnogaeth os yw'ch asedau yn uwch na'r trothwy cyfalaf.

Gall rhai mathau o gyfalaf gael eu diystyru wrth benderfynu faint o gyfalaf sydd gennych ac, i gael rhagor o wybodaeth am hyn, dylech gysylltu â'r Tîm Asesiadau Ariannol (gweler y manylion cyswllt ar dudalen 16 y Ffeithlen hon).

Os yw eich cyfalaf yn llai na'r trothwy, yna bydd hwn yn cael ei anwybyddu yn ystod yr asesiad ariannol a bydd unrhyw dâl a godir arnoch yn dibynnu ar eich incwm a'ch treuliau/lwfansau yn unig. Os oes Cost Ychwanegol yn y cartref gofal a ddewiswyd, bydd y tâl hwn yn ychwanegol at eich tâl â asesir yn ariannol a rhaid i drydydd parti ei dalu o'u cronfeydd eu hunain.

## Incwm

Yn y mwyafrif o achosion bydd eich holl incwm o ba ffynhonnell bynnag yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol. *Bydd angen i chi arbed eich budd-daliadau a'ch incwm o'r dyddiad y byddwch yn mynd i mewn i'r cartref gofal, gan y bydd angen defnyddio'r rhan fwyaf o'r rhain i dalu tuag at gost y cartref gofal*. Mewn rhai amgylchiadau fodd bynnag, mae'n bosib y bydd rhai elfennau o'r incwm yn cael eu diystyru neu bydd lwfansau'n cael eu hystyried, a bydd hynny'n gostwng yr incwm fydd yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol. Ym mhob achos, byddwch yn gallu cadw'r Isafswm Incwm (gweler tudalen 18 y Ffeithlen hon).

## Lwfansau neu Ddiystyriadau

Mewn asesiad ariannol personol mae wastad swm o arian na ellir ei ddefnyddio i dalu tâl. Gelwir hyn yn Isafswm Incwm (gweler tudalen 18 y Ffeithlen hon) ac mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r isafswm hwn bob blwyddyn.

Yn ogystal â'r Isafswm Incwm, gall rhai ffynonellau incwm eraill gael eu diystyru'n llwyr neu'n rhannol. Gweler yr enghreifftiau isod:

- Unrhyw enillion cyflogaeth
- Budd-dal Plant
- Taliadau Bonws y Nadolig
- Credyd Treth i Bobl Anabl
- Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol
- Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl a'r Taliad Annibyniaeth Bersonol (o'i gymharu â'r elfen ofal) ac atodiad symudedd y Pensiwn Rhyfel
- Treuliau a delir yn y gwaith
- Taliadau i Gyn-garcharorion Rhyfel y Dwyrain Pell a thaliadau Niwed trwy Frechiad
- £10 gyntaf pensiynau Gweddwon/Gwŷr Gweddw Rhyfel, Taliadau Incwm Gwarantedig i oroeswyr gan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, pensiwn Anaf Rhyfel Sifil a thaliadau i'r rhai a ddioddefodd erledigaeth gan y Sosialwyr Cenedlaethol

- Gwerth eich cartref/prif breswylfa (yn achos arosiadau Tymor Byr ac arosiadau Dros Dro am hyd at 52 wythnos)
- Pensiwn Atodol Gweddwon Rhyfel
- Taliadau Tanwydd Gaeaf
- Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio
- Pensiwn Anabledd Rhyfel
- Hyd at £5.75 gyntaf Credyd Cynilion
- 50% o bensiwn preifat/galwedigaethol lle rydych yn rhoi o leiaf 50% o'r pensiwn i'ch priod/partner i dalu eu costau byw

**A allaf drosglwyddo unrhyw rai o fy asedau i rywun arall?**

Os ydych yn trosglwyddo cynilion, arian neu asedau eraill, gan gynnwys eiddo, neu wedi gwerthu eiddo am lai na'i werth ar y farchnad, neu'n roi eiddo mewn ymddiriedaeth / ei drosglwyddo i rywun arall neu'n dorri tenantiaeth ar y cyd cyn derbyn gofal, neu tra byddwch yn derbyn gofal, efallai y byddwn yn eich asesu fel petaech yn dal i fod â gwerth llawn yr ased. Efallai y bydd person sy'n manteisio yn dod yn atebol am unrhyw daliadau sydd heb eu talu.

Byddwn yn gofyn i chi am amser, rheswm, derbynnydd, a gwerth ariannol y trosglwyddiad ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i seilio ein penderfyniad ar a yw amddifadedd asedau wedi digwydd; byddwn yn gwneud penderfyniad ynghylch a yw'r ased wedi'i gynnwys neu ei ddiystyru o'r asesiad ariannol.

Byddwn yn edrych ar gofnodion Gofal Cymdeithasol ac efallai y byddwn yn gofyn am Gofnodion Meddygol i benderfynu a allai Gofal a Chymorth fod wedi cael ei ragweld yn rhesymol ar yr adeg y rhoddwyd yr asedau ac yn cynorthwyo yn ein penderfyniad ynghylch amddifadu asedau.
Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu pobl agored i niwed ac felly gall rhai achosion arwain at atgyfeiriad i'r Tîm Diogelu i'w ymchwilio.

## A oes angen i mi ddweud wrthych am unrhyw newid?

Dylech roi gwybod inni os bydd eich budd-daliadau/incwm yn cynyddu neu'n gostwng, os byddwch yn cael unrhyw fudd-daliadau/incwm newydd, os byddwch ar eich ennill yn ariannol yn sgil etifeddu neu unrhyw drosglwyddiad arall, neu os yw eich cynilion/cyfalaf wedi codi'n uwch neu'n is na'r trothwy cyfalaf uchaf (gweler y trothwy cyfalaf presennol ar dudalen 18 y Ffeithlen hon) neu os bydd treuliau newydd neu ychwanegol gennych yn sgil newid yn eich anghenion gofal gan y gallai hyn effeithio ar y swm rydych chi'n ei dalu tuag at eich lleoliad mewn cartref gofal..

## Trefniadau ar gyfer Asesiadau Ariannol

Bydd pawb y bydd y Cyngor yn eu lleoli mewn Cartref Gofal yn cael cynnig asesiad ariannol i gyfrifo'r tâl am y lleoliad. Gallwch ddewis gwrthod, ac yn yr achos hwnnw, gofynnir ichi dalu cost lawn y lleoliad ar y pryd, ynghyd â thâl am drefnu'r lleoliad os ydych chi'n byw mewn cartref preifat.

Os byddwch yn cytuno i gael asesiad ariannol yna gall hyn ddigwydd yn eich cartref chi, neu yn y cartref gofal, er mwyn sicrhau preifatrwydd, neu gellir trefnu cyfweliad preifat mewn man cyfleus yn un o swyddfeydd y cyngor. Os dymunwch, gall perthynas neu ffrind fod yn bresennol neu'ch cynrychioli. Os nad ydych yn trin eich materion ariannol eich hunan, yna gall y person sy'n gwneud hynny drosoch lenwi'r ffurflen ar eich rhan.

Mae'n bwysig nad ydych yn talu mwy nag y dylech am y lleoliad. Trwy edrych ar eich sefyllfa ariannol gallwn sicrhau bod eich tâl yn gywir a'ch bod yn derbyn yr holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt. Os oes angen, byddwn yn eich helpu chi i lenwi unrhyw ffurflen/ffurflenni fydd ei/eu hangen er mwyn hawlio budd-dal o'r Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith.

Byddwn yn gofyn am weld dogfennau ariannol i ategu eich cais a bydd rhaid inni wneud copïau i'w chadw o'r dogfennau ariannol a ddefnyddiwn er mwyn inni gael cofnod cywir o'ch sefyllfa ariannol pan fyddwch yn cael asesiad ariannol. Mae gennym weithdrefnau i ddiogelu eich preifatrwydd.

Os byddwch yn fwriadol yn gwneud datganiad anwir ar y ffurflen asesu er mwyn lleihau'r taliadau y bydd yn rhaid ichi eu talu neu er mwyn osgoi gorfod talu, neu os na ddatgelwch eich holl amgylchiadau ariannol, gellir codi'r tâl llawn arnoch am y lleoliad a ddarperir.

Mae'n bosibl na fydd tâl am wasanaethau ôl-ofal a fydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, serch hynny, os oes Cyfraniad Cost Ychwanegol yn y cartref gofal a ddewiswyd, yna bydd hyn yn codi tâl.

Ni fydd defnyddwyr gwasanaeth a leolir mewn Cartref Gofal sy'n dioddef gan unrhyw ffurf ar CJD ac sydd wedi cael diagnosis gan Ymarferydd Meddygol Cofrestredig yn cael asesiad ariannol, a byddant yn cael eu heithrio'n awtomatig ac yn derbyn gwasanaeth am ddim.

## A fydd yn rhaid i'm gŵr/gwraig/partner dalu rhywfaint tuag at fy ngofal?

Mae’r asesiad ariannol yn seiliedig ar eich asedau chi yn unig, gan gynnwys eich cyfran chi o’ch cyd asedau.

Bydd yr asesiad ariannol yn cael ei gynnal ar y person a fydd yn cael ei (l)leoli yn y Cartref Gofal. Dim ond yr incwm a'r cyfalaf y mae gan y person hwnnw hawl iddynt fydd yn cael eu hystyried. Os yw'r cyfalaf/buddsoddiadau ac ati ganddynt ar y cyd â rhywun arall yna *fel arfer* cânt eu dosrannu'n gyfartal, neu ar sail hawl os bydd y wybodaeth a ddarperir yn dangos rhywbeth gwahanol. Os oes budd-daliadau'n cael eu talu ar sail ‘pâr’ yna bydd y swm a delir i'r person sy'n derbyn gwasanaeth yn cael ei ystyried yn y broses asesu ariannol.  Byddwn yn diystyru 50% o bensiwn preifat/galwedigaethol os ydych yn rhoi o leiaf 50% o'r pensiwn i'ch priod/partner i dalu eu costau byw.

Os yw eich priod/partner yn dal i fyw gartref, bydd yr eiddo yn cael ei ddiystyru at ddibenion yr asesiad tra eu bod yn dal i fyw yno (oni bai eich bod chi'n dieithrio), fodd bynnag, bydd y penderfyniad hwn yn cael ei adolygu os bydd eu hamgylchiadau yn newid a dylech roi gwybod i ni os yw'r sefyllfa'n newid gan y bydd unrhyw newid i'ch tâl o ganlyniad i hyn yn cael ei ôl-ddyddio i'r dyddiad y digwyddodd y newid.  Bydd y Cyngor yn ymdrechu i sicrhau nad yw incwm eich priod/partner yn disgyn islaw lefel a bennwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith.  Cynigir asesiad ariannol i'r person arall/pobl eraill sy'n byw yn y tŷ.

## Faint bydd yn rhaid imi ei dalu os aseswyd bod angen Gofal Nyrsio arnaf?

Os aseswyd bod angen gofal nyrsio arnoch, bydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn talu swm wythnosol tuag at eich ffioedd gofal nyrsio, a bydd y swm hwn yn cael ei dalu’n uniongyrchol i'r Cyngor i drosglwyddo ymlaen i’r cartref gofal. Mae'r swm hwn i'w weld ar dudalen 18 y Ffeithlen hon.  Mae hyn ond yn berthnasol i gartrefi gofal yng Nghymru; bydd y trefniadau'n wahanol os byddwch yn symud i gartref gofal yn Lloegr neu yn yr Alban.

Cynigir asesiad ariannol ichi er mwyn pennu'r tâl am elfen ‘Gofal Cymdeithasol’ eich lleoliad a bydd y swm yr asesir bod yn rhaid ichi ei dalu yn dibynnu ar eich incwm, asedau a threuliau, fel y disgrifiwyd eisoes.

## Faint bydd yn rhaid imi ei dalu os aseswyd bod angen Gofal Iechyd Parhaus arnaf?

Dan rai amgylchiadau, bydd eich anghenion gofal iechyd yn golygu bod yr Awdurdod Iechyd (AI) yn derbyn y cyfrifoldeb am dalu cost lawn y lleoliad dan y trefniadau Gofal Iechyd Parhaus (GIP); yn y sefyllfa hon ni fyddid yn gofyn ichi wneud unrhyw gyfraniad ariannol.

Os yw'r Cyngor wedi trefnu'r lleoliad mewn cartref gofal tra bod yr Awdurdod Iechyd yn asesu eich cymhwysedd ar gyfer cyllid GIP, yna bydd tâl wedi'i asesu'n ariannol yn ddyledus am y cyfnod hwn; bydd hyn yn cael ei ail-dalu i chi am unrhyw gyfnod y mae'r AI yn penderfynu y dylai'r lleoliad fod wedi cael ei ariannu o dan gyllid GIP.

## Costau Ychwanegol – (a elwir weithiau'n Gyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol neu'n Ychwanegiad)

Mae gan yr awdurdod ffioedd safonol y mae'n eu talu i gartref gofal, gan ddibynnu ar eich anghenion gofal asesedig.

Os byddwch yn dewis cartref gofal sydd yn ddrutach na’r ddau gartref gofal sydd yn cael ei gynnig i chi ar yr amser rydych yn cael eich lleoli mewn cartref gofal, h.y. lle mae'r cartref gofal rydych wedi dewis yn codi ffi wythnosol sy'n uwch na’r ffioedd sydd yn ofynnol gan y ddau gartref gofal cynigwyd i chi, yna bydd Cost Ychwanegol yn ddyledus. Gweler y ddolen ar dudalen 18 am ragor o wybodaeth.

Gallwch dalu'r Gost Ychwanegol eich hun dimond os fod gennych eiddo sydd yn cael ei gynnwys yn y broses asesu ariannol ac a'ch bod yn gallu ymrwymo i Gytundeb Taliad Gohiriedig. Gweler tudalennau 13 & 14 o'r Daflen Wybodaeth hon, y ddolen ar dudalen 18 a'r Daflen Ffeithiau 'Beth yw Cynllun Taliad Gohiriedig'

Os am unrhyw reswm na allwch ymrwymo i Gytundeb Taliad Gohiriedig (e.e. nad yw eich eiddo wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir, neu nad ydych yn berchen ar eiddo, neu nad yw'r eiddo rydych chi'n ei berchen ynddo wedi'i gynnwys yn y broses asesiad ariannol, neu na allwch ddarparu tystiolaeth o'ch hunaniaeth ar gyfer gofynion y Gofrestr Tir ac ati.) ac os nad oes gennych ddigon o incwm wedi'i ddiystyru i dalu cost y lleoliad yna rhaid i drydydd parti gytuno i dalu'r Gost Ychwanegol a byddant yn gyfrifol am dalu'r swm hwn o'u harian eu *hunain*. Os nad oes trydydd parti sy'n fodlon ac yn gallu ariannu'r Gost Ychwanegol, rhaid i chi dderbyn un o'r ddau leoliad a gynigir i chi gan y cyngor neu wneud eich trefniadau eich hun ar gyfer lleoliad cartref gofal, heb gyfranogiad gan y cyngor.

Bydd yn ofynnol i’r trydydd parti gynnal asesiad ariannol, gan ddarparu tystiolaeth o’u modd i benderfynu a allant fforddio talu’r Cyfraniad Costau Ychwanegol o’u cronfeydd eu hunain am hyd y lleoliad ac i lofnodi cytundeb gyda’r awdurdod lleol i dalu’r Cyfraniad Costau Ychwanegol. Ni fydd y lleoliad yn mynd yn ei flaen nes bod tystiolaeth o fforddiadwyedd y trydydd parti wedi cael ei darparu a bod y Cytundeb Cost Ychwanegol a lofnodwyd wedi’i dderbyn.

**Bydd y Gost Ychwanegol yn ychwanegol at eich tâl am y lleoliad sy'n seiliedig ar brawf modd**.

## Beth os oes gennyf ddigon o incwm neu gynilion i dalu cost lawn fy lleoliad?

Os yw eich cynilion uwchlaw'r trothwy cyfalaf uchaf (gan gynnwys tir/eiddo) neu os yw eich incwm wythnosol yn ddigonol i dalu cost lawn eich lleoliad, gallwch ofyn i'r Awdurdod Lleol drefnu'r lleoliad ar eich rhan a chodir cost lawn y lleoliad arnoch. Byddwch yn gallu hawlio'r Lwfans Gweini/Lwfans Byw i’r Anabl – Cydran Ofal /Taliad Annibyniaeth Bersonol – Byw'n Ddyddiol (fel arfer ar y gyfradd uwch) i helpu i dalu am eich gofal a'ch cefnogaeth os oes gennych ddigon o incwm/asedau i dalu cost lawn eich lleoliad.

Byddwn yn codi ffi un- tâl wythnosol am drefnu a chynnal eich lleoliad (gweler tudalen 18 o'r Daflen Ffeithiau hon) gyda'r cartref gofal os byddwch yn dewis peidio â datgelu eich asedau neu os oes gennych fynediad at gyfalaf hylifol (arian yn y banc ac ati) uwchlaw'r trothwy cyfalaf (gweler tudalen 18 o'r Daflen Ffeithiau hon), neu incwm wythnosol digonol i dalu cost lawn y lleoliad; mae hyn oherwydd unai eich bod chi, neu eich cynrychiolydd a’r gallu i drefnu'r lleoliad heb gyfranogiad gan y Cyngor. N.B. Nid yw hyn yn berthnasol i Gartrefi Gofal sy'n eiddo i’r Awdurd Lleol gan mai dim ond y Cyngor y gall eich lleoli yn y Cartrefi Gofal hyn.

Ni fyddwch yn gallu talu unrhyw Gyfraniad Cost Ychwanegol sy'n ddyledus o'ch incwm a'ch asedau eich hun.

## Beth os yw fy arian ynghlwm wrth fy nhŷ?

Os yw cyfanswm eich cyfalaf uwchlaw'r trothwy cyfalaf uchaf, ond nad yw ar gael ichi oherwydd bod eich cyfalaf ynghlwm wrth eich prif eiddo/tir ac nad ydych yn dymuno ei werthu neu'n gallu ei werthu ar yr adeg hon, bydd y Cyngor yn gwneud Cytundeb Taliadau Gohiriedig â chi neu'ch cynrychiolydd, a byddwch yn gallu gohirio elfen o'ch tâl, gan gynnwys y Gost Ychwanegol, os yw'n briodol, hyd nes y bydd y cytundeb taliadau gohiriedig yn dod i ben (gweler ‘Beth yw Cytundeb Taliad

Gohiriedig?’ ar dudalennau 13 & 14 y Ffeithlen hon). Byddwch yn gallu hawlio'r Lwfans Gweini/Lwfans Byw i’r Anabl – Cydran Ofal/Taliad Annibyniaeth Bersonol – Byw'n Ddyddiol (fel arfer ar y gyfradd uwch) i helpu i dalu am eich gofal a'ch cefnogaeth os oes gennych ddigon o incwm/asedau i dalu cost lawn eich lleoliad.

Byddwn yn codi Tâl Gweinyddol untro am y trefniant hwn – gweler Beth yw Cytundeb Taliad Gohiriedig?' ar dudalennau 9 & 10 o'r Daflen Ffeithiau hon, y ddolen ar dudalen 18 o'r Daflen Ffeithiau hon a Thaflen Ffeithiau 6 – Cytundeb Taliad Gohiriedig

## Faint a godir arnaf os byddaf yn gorfod treulio amser yn yr ysbyty neu yn gadael y cartref dros dro yn ystod fy arhosiad yn y Cartref?

Os ydych yn breswylydd dros dro neu’n breswylydd parhaol mewn Cartref Gofal ac yn cael eich derbyn i’r ysbyty neu yn gadael y cartref dros dro, byddwn yn cadw eich lleoliad ar eich cyfer hyd nes y penderfynir nad oes angen y lleoliad arnoch fwyach neu hyd nes y penderfynir na fydd y lleoliad yn gallu diwallu eich anghenion yn y dyfodol. Rhaid i'r Awdurdod Lleol dalu'r cartref gofal yn llawn dra bod y lleoliad yn cael ei gadw. Yn ystod eich cyfnod yn yr ysbyty/y cyfnod rydych i ffwrdd o’r cartref gofal byddwn yn dal i godi y tâl arferol a asesir yn ariannol arnoch am eich lleoliad. Os oes Cost Ychwanegol yn y lleoliad, bydd hyn hefyd yn cael ei godi.

## Beth os wyf yn berchen ar eiddo?

At ddibenion yr asesiad ariannol, gall eiddo gynnwys tir, tŷ, siop, carafán, fflat, ac ati, rydych yn berchen arno/arni neu'n berchen yn rhannol arno/arni.

I bob un o ddefnyddwyr ein gwasanaeth sy'n cael eu derbyn yn barhaol i gartref gofal, ni fydd gwerth eich prif breswylfa yn cael ei ystyried am y 12 wythnos gyntaf yn dilyn eich derbyn i’r cartref gofal. Fodd bynnag, pe baech yn gwerthu eich cartref yn ystod y cyfnod 12 wythnos cychwynnol hwn, byddai’r arian a gafwyd am yr eiddo yn cael ei ystyried o’r dyddiad gwerthu ymlaen.

I gyfer pob Defnyddiwr Gwasanaeth a dderbynir dros dro i gartref gofal, ni ystyrir gwerth eich preswylfa brif am hyd at y 52 wythnos gyntaf ar ôl eich derbyn mewn i’r cartref gofal . Os, er enghraifft, y byddech yn gwerthu eich eiddo yn ystod y cyfnod 52 wythnos gyntaf hwn, bydd yr elw gwerthu yn cael ei ystyried o ddyddiad y gwerthiant. Bydd yr eiddo yn cael ei ystyried ar ôl 52 wythnos, neu o'r dyddiad y caiff eich lleoliad ei wneud yn barhaol, pa un bynnag sydd yn gyntaf.

Os ydych yn berchen ar dir, byddai gwerth y tir yn cael ei gynnwys o'r diwrnod cyntaf y cewch eich derbyn i'r cartref gofal yn achos preswylwyr dros dro a phreswylwyr parhaol.

Byddwn yn trefnu i rywun brisio eich eiddo ar gyfer yr asesiad ariannol.

Nid yw gwerth eich tŷ yn cael ei ystyried o gwbl os yw hefyd yn brif breswylfa i unrhyw un o'r bobl ganlynol:

- Eich partner (mae hyn yn golygu gŵr, gwraig, partner sifil neu rywun yr ydych yn byw gyda nhw fel gŵr/gwraig neu bartner, oni bai eich fod wedi'i ddieithrio);
- Perthynas sydd dros 60 oed;
- Perthynas sy'n analluog (mae hyn yn golygu ei fod/bod yn derbyn budd-daliadau anabledd neu y gallai eu derbyn);
- Plentyn dan 18 oed;
- Gofalwr sydd wedi rhoi'r gorau i'w gartref/chartref ei hunan i ofalu amdanoch;
- Rhiant unigol â phlentyn dibynnol, os ydynt wedi ysgaru neu ymddieithrio oddi wrth y preswylydd;
- Perthynas nad yw'n berchen ar gartref arall ac a oedd yn byw gyda chi cyn ichi symud i fyw mewn cartref gofal.

Efallai y byddwn yn gwneud gwiriadau, megis gwirio cofnodion y Dreth Gyngor i gadarnhau pwy sy'n byw yn yr eiddo.

Os yw gwerth eich tŷ wedi cael ei anwybyddu gan fod rhywun arall yn byw ynddo a bod yr unigolyn hwnnw maes o law yn symud o'r tŷ neu'n marw, fel rheol bydd gwerth y tŷ yn cael ei ystyried o'r dyddiad y bydd yr unigolyn yn gadael y tŷ. Dylech roi gwybod i ni os yw'r sefyllfa'n newid gan y bydd unrhyw newid i'ch tâl o ganlyniad i hyn yn cael ei ôl-ddyddio i'r dyddiad y digwyddodd y newid.

## Beth os yw rhywun yn berchen fy eiddo ar y cyd â mi?

Byddem yn edrych yn fanwl ar ddogfennau i gadarnhau eich bod yn berchen yr eiddo ar y cyd â rhywun arall ac fel rheol byddem yn ystyried gwerth eich canran chi o'r eiddo yn unig.

Byddai dim ond yn bosibl i chi fynd i mewn i Gytundeb Taliad Arhosol o dan amgylchiadau penodol ac os yw'r perchennog cyd-ddaliad yn caniatáu hynny.

## Beth os yw fy eiddo wedi cael ei drosglwyddo i rywun arall?

Byddem yn edrych yn fanwl ar y dogfennau sy'n cadarnhau hyn. Os cafodd eich eiddo ei drosglwyddo i rywun arall byddwn fel arfer yn gofyn ichi ddarparu

gwybodaeth sy’n ymwneud â thelerau’r trosglwyddo.  Byddwn hefyd yn ymgynghori â’n hadran gyfreithiol i gael penderfyniad ynghylch a fydd eich eiddo yn cael ei gynnwys yn eich asesiad ariannol ac ystyried a ddylid trin y trosglwyddiad fel amddifadedd asedau.

## A fydd yn rhaid imi werthu fy eiddo?

Os ydych yn berchen ar eich eiddo, gallwch ddewis a ydych am ei werthu neu beidio. Os yw eich cynilion, buddsoddiadau a chyfalaf arall islaw'r trothwy cyfalaf (gweler tudalen 18 y Ffeithlen hon), cynigir Taliadau Gohiriedig ichi – gweler y Ffeithlen, ‘Beth yw Cynllun Taliad Gohiriedig’ a'r ddolen ar dudalen 18 o'r Daflen Ffeithiau hon. Byddwn yn codi Tâl Gweinyddol untro am Gytundeb Taliad Gohiriedig (GTG). Os na ellir cynnig GTG, byddwn yn gwneud cais am Dâl Cyfreithiol i sicrhau dyled a bydd yr un Tâl Gweinyddol yn gymmwys.

Drwy gytuno i Daliadau Gohiriedig, caniateir i gyfran o'ch tâl, gan gynnwys Cyfraniad Cost Ychwanegol, os yw’n berthnasol, barhau heb ei thalu hyd ddyddiad diweddarach.  Byddem yn disgwyl ichi gyfrannu unrhyw incwm rydych yn ei dderbyn (gan gynnwys unrhyw incwm rhent os ydych yn rhentu eich eiddo), a'r diffyg rhwng eich incwm a chost lawn y lleoliad fyddai'r swm a fyddai'n cael ei ohirio.  Bydd yr adran yn gosod “Arwystl Cyfreithiol” ar yr eiddo hyd nes y bydd wedi'i werthu. Mae hyn yn golygu y gallwn gasglu’r swm sy’n ddyledus gennych pan werthwch eich tŷ yn y dyfodol.  Os nad yw'ch eiddo wedi'i gofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir, yna bydd angen i chi wneud hynny i ymrwymo i Gytundeb Taliad Gohiriedig.

Bydd angen i chi gysylltu â ni cyn gwerthu'r eiddo, gan gadarnhau'r enillion net disgwyliedig o'r gwerthiant fel y gallwn gadarnhau'r swm sydd i dalu, gan gynnwys unrhyw log sy'n ddyledus a threfnu i dynnu'r Arwystl Cyfreithiol o'r eiddo er mwyn i chi gallu cwblhau'r gwerthiant.

## Beth fydd yn digwydd os rhoddaf fy eiddo ar werth?

Os dewiswch roi’ch eiddo ar werth, byddwn yn parhau i’ch cynorthwyo i dalu am gost eich gofal tan y bydd eich eiddo wedi’i werthu. Ar ôl i’r eiddo gael ei werthu, rhaid ichi ddweud wrthym a byddwn yn cyfrifo faint y bydd yn rhaid ichi ei ad-dalu am y cymorth ariannol a gawsoch hyd at yr amser hwnnw, yn seiliedig ar y cynnyrch net o werthiant ac incwm/cyfalaf arall sydd gennych.  Hefyd, byddwn yn dweud wrthych faint y bydd yn rhaid ichi ei dalu yn y dyfodol.

Os, ar ôl talu unrhyw ffioedd sydd yn ddyledus i'r Awdurdod Lleol, bydd eich asedau cyfalaf hylifol (arian yn y banc ac ati) yn parhau yn uwch na’r trothwy

cyfalaf (gweler tudalen 18 o'r Ffeithlen yma), neu fod gennych incwm wythnosol digonol i dalu'r gost lawn o'r lleoliad, byddwn yn codi ffi wythnosol Cyfradd Untâl am gynnal eich lleoliad (gweler tudalen 18 o'r Ffeithlen yma) gyda'r cartref gofal; mae hyn oherwydd bod y gallu gennych chi, neu eich cynrychiolydd, i drefnu'r lleoliad heb gyfranogiad gan y Cyngor. Noder: Nid yw hyn yn berthnasol i Gartrefi Gofal sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol gan na allwch gael eich lleoli yn y Cartrefi Gofal yma ond gan y Cyngor.

## Beth os na fyddaf yn rhoi fy eiddo ar werth?

Os dewiswch beidio â rhoi eich eiddo ar werth, byddwn yn parhau i'ch cynorthwyo i dalu am gost eich gofal. Byddwch yn dal i gyfrannu at y gost o'ch incwm, ond bydd y diffyg rhwng yr hyn rydych yn ei dalu inni a'r taliadau a aseswyd yn gallu cael ei ohirio dan y Cynllun Taliadau Gohiriedig (gweler isod) a byddwch yn ad-dalu'r ddyled a gronnwyd pan fydd yr eiddo wedi'i werthu.

## Beth yw Cytundeb Taliad Gohiriedig?

Os nad oes gennych ddigon o arian i dalu'r tâl wythnosol, oherwydd bod y cyfalaf sydd gennych ynghlwm wrth eich prif breswylfa, neu nad yw eich incwm yn ddigon i dalu cost y lleoliad bydd yr awdurdod yn cytuno i ganiatáu i'r ddyled gronni. Bydd disgwyl i chi dalu'ch incwm, gan gynnwys incwm rhent, llai Isafswm Incwm, gyda gweddill y tâl yn cael ei ohirio yn erbyn eich eiddo.  Bydd yn rhaid ichi, neu eich ystâd, ad-dalu'r taliadau a ohiriwyd pan fyddwch yn gwerthu eich cartref neu yn gadael y cartref gofal preswyl. Ni fydd yr awdurdod yn codi llog tra bydd y taliadau'n cael eu gohirio. Fodd bynnag, codir llog 90 diwrnod ar ôl gwerthu'r eiddo os yw'r eiddo yn cael ei werthu, neu ar eich ystâd ar y swm sydd heb ei dalu 90 diwrnod ar ôl ichi farw.

Os ydych yn dymuno gohirio eich taliadau, bydd yn ofynnol ichi lofnodi cytundeb cyfreithiol ysgrifenedig â'r awdurdod.  Byddwn yn codi Tâl Gweinyddol untro am Gytundeb Taliad Gohiriedig.

## A gaf gadw unrhyw arian o fy incwm i mi fy hun?

Bydd gennych hawl i Lwfans Isafswm Incwm (LII) bob wythnos. Mae hwn yn swm o arian y mae gennych hawl i'w gadw o'ch incwm eich hun a cewch ddefnyddio hwn fel y mynnwch ac ni cheir ei ddefnyddio byth i dalu cost eich gofal, os nad ydych yn dewis gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu swm y Lwfans Isafswm Incwm bob blwyddyn ac mae'r swm presennol i'w weld ar dudalen 18 y Ffeithlen hon.  Gall y Cyngor dalu'r LII i'r cartref gofal i'w drosglwyddo i chi, fel bod arian ar

gael at eich defnydd eich hun ac os yw hyn yn wir bydd yr LlI yn cael ei ychwanegu at anfonebau a anfonir ar gyfer taliadau cartrefi gofal.

## Sut y telir ffioedd Cartref Gofal?

Mae nifer o ffyrdd y gallwch dalu eich ffioedd a chewch ddewis yr un sydd orau gennych. Yn aml, defnyddir mwy nag un ffordd os mai hynny sydd fwyaf cyfleus ichi. Y canlynol yw'r dewisiadau mwyaf poblogaidd:

- **Ailgyfeirio pensiynau** - mae'n bosibl trefnu i'ch pensiwn gwladol (Pensiwn y Wladwriaeth) a'ch budd-daliadau eraill gael eu hailgyfeirio o dan apwyntiad gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith fel y telir hwy'n uniongyrchol i'r awdurdod lleol yn hytrach nag i chithau. Bydd y Cyngor yn codi ffi un-tâl wythnosol am y trefniant hwn a ganiateir fel treuliau yn erbyn eich asesiad ariannol. Gweler tudalen 18 o'r Daflen Ffeithiau hon.
- **Drwy anfoneb -** gallwn anfon anfoneb atoch yn rheolaidd am y rhan o'r tâl y gallwch ei thalu/rydych wedi dewis ei thalu yn y modd hwn. Bydd yr anfoneb yn berthnasol i wasanaeth y byddwch eisoes wedi'i dderbyn.
- **Debyd Uniongyrchol** - gallwch drefnu cytundeb debyd uniongyrchol fel bod eich taliad cyfan neu ran ohono yn cael ei godi'n uniongyrchol o'ch cyfrif banc. Anfonir anfoneb atoch i ddangos faint sy'n ddyledus cyn y bydd y taliad yn cael ei godi o'ch cyfrif.

Os nad oes gennych allu i reoli eich cyllid ac nad oes unrhyw un ag awdurdod cyfreithiol i wneud hynny drosoch, yna efallai y bydd yn briodol i Ddirprwy gael ei benodi gan y Swyddfa Gwarcheidwaid Cyhoeddus. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y cyngor wneud cais i ddod yn Ddirprwy ac os yw hyn yn wir yna codir ffi untâl am y cais. Gweler tudalen 18 o'r Daflen Ffeithiau hon.

## Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn talu?

Os na fyddwch yn talu'ch taliad, byddwn yn cysylltu â chi i ganfod a oes problem. Os oes problem, byddwn yn ceisio eich helpu i ddatrys y broblem. Os nad oes problem a'ch bod yn dal i beidio â thalu eich biliau, bydd yn rhaid inni gymryd camau priodol i gasglu unrhyw ddyledion.

## Beth y gallaf ei wneud os credaf eich bod wedi cyfrifo fy nhâl yn anghywir?

Os ydych yn credu bod eich tâl wedi cael ei asesu'n anghywir yna cysylltwch â'r Tîm Asesiadau Ariannol. Bydd Swyddog yn bwrw golwg dros eich asesiad i sicrhau bod yr holl ffigurau'n gywir ac nad oes unrhyw wybodaeth berthnasol ar

goll.  Os ydych yn dal i fod yn anfodlon ar y canlyniad, gallwch ofyn i reolwr wirio'r asesiad.  Os ydych yn dal i fod yn anfodlon wedi hynny, gallwch ofyn am adolygiad ffurfiol o'r penderfyniad a gall y staff yn y Tîm Asesiadau Ariannol esbonio'r camau y dylech eu dilyn nesaf.

Hefyd gallwch ofyn i rywun y tu allan i'r Cyngor fwrw golwg dros y cyfrifiadau (e.e. y Ganolfan Cyngor ar Bopeth).

## Beth os wyf yn anfodlon ar y gwasanaeth neu os wyf eisiau gwneud cwyn?

Er bod byw mewn cartref gofal yn brofiad cadarnhaol iawn i'r rhan fwyaf o bobl, gall y broses o ddewis y cartref iawn, symud iddo a thalu'r ffioedd fod yn un gymhleth weithiau.

Os ydych yn anfodlon ar ein gwasanaethau, mae gennych hawl i gwyno a dylech gysylltu â'r Tîm Datrys a Chwynion.  Ni fyddwch yn colli unrhyw wasanaeth o ganlyniad i'ch cwyn.

Mae modd cysylltu â'r Tîm Datrys a Chwynion fel a ganlyn:
- Drwy ffonio 01267 224488
- Drwy anfon e-bost i cwynion@sirgar.gov.uk
- Drwy lenwi ein ffurflen gwynion a chanmoliaeth sydd ar gael ar-lein: www.sirgar.gov.uk/cwynionachanmoliaeth

## Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Cynnig cyngor cyffredinol a wna'r llyfryn hwn yn unig. Os oes angen rhagor o eglurhad arnoch am unrhyw ran o'r wybodaeth a geir yn y llyfryn, cysylltwch â'r:

Tîm Asesiadau Ariannol Preswyl,
Yr Adran Cymunedau, Cyngor Sir Caerfyrddin,
3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE

**Rhif Ffôn: 01267 228903/228632/228997**

**E-bost: gctasesiadauariannol@sirgar.gov.uk**

## Â phwy y dylwn gysylltu i drafod fy anghenion?

Dylech gysylltu â'n **Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth – Llesiant Delta ar: 0300 333 2222**, neu â'ch Gweithiwr Cymdeithasol, os pennwyd gweithiwr cymdeithasol i chi.

## Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Os hoffech wybod sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth, edrychwch ar ein hysbysiadau preifatrwydd fan hyn:
**www.sirgar.llyw.cymru/hysbysiadau-preifatrwydd**

Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r hysbysiadau preifatrwydd ar-lein a'ch bod yn dymuno derbyn copi, ffoniwch 01267 228703.

## Rhagor o rifau cyswllt defnyddiol:

| | |
|---|---|
| Age Cymru Sir Gâr | 01554 784080 |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 0300 7900 126 |
| Gwasanaeth Gofalwyr Sir Gaerfyrddin | 0300 0200 002 |
| Cyngor ar Bopeth | 03444 77 20 20 |
| Independent Age | 0800 3196789 |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau | 0800 882 200 |
| Y Ganolfan Byd Gwaith | 0800 055 6688 |

**Sylwch y gall unrhyw daliadau a nodir yn y llyfryn hwn newid. Mae newidiadau fel arfer yn weithredol o fis Ebrill bob blwyddyn.**

# Symud i Gartref Gofal 2025/26

## Cyfraniad y GIG tuag at ffioedd gofal nyrsio:

£225.88 yr wythnos

## Y Trothwy Cyfalaf Uchaf ar gyfer 2025/26 (a bennwyd gan Lywodraeth Cymru):

£50,000.00 – nid yw cyfalaf sy'n is na'r trothwy hwn yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol

## Yr Isafswm Incwm ar gyfer 2025/26 (a bennwyd gan Lywodraeth Cymru):

£44.65 yr wythnos

## Ffioedd Cyfradd Untâl ar gyfer 2025/26 (mae'r tâl hwn yn berthnasol, waeth beth yw canlyniad asesiad ariannol y preswylwr):

**Penodiad DWP/JCP** - £5.00 yr wythnos
**Tâl gweinyddol i breswylwyr sydd â chyfalaf hylifol uwchlaw'r trothwy (cartrefi preifat yn unig)** - £10.00 yr wythnos
**Ffi Ymgeisio Dirprwy** - tâl untro o £944.00
**Cytundeb Taliad Gohiriedig/Ffi Tâl Cyfreithiol** - tâl untro o £200.00

Gweler isod ddolen i wefan y cyngor i gael rhagor o wybodaeth gyffredinol am godi tâl am leoliadau Gofal Preswyl:

www.sirgar.llyw.cymru/asesiadariannol
www.sirgar.llyw.cymru/taluamofalpreswyl
www.sirgar.llyw.cymru/cost-ychwanegol-lleoliad-cartref-gofal
www.sirgar.llyw.cymru/cynlluntaliadaugohiriedig

**Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael yn Gymraeg.**
**Os hoffech gael y daflen ffeithiau hon mewn unrhyw fformat arall, ffoniwch 01267 228703 neu ddanfon e-bost i gofalcymdeithasol@sirgar.gov.uk**